

**Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd
Llanfihangel-y-Creuddyn ar Nos Lun 19eg Tachwedd, 2018 am 7.30 y.h.**

Presennol:

Cyng.T. Alwyn G. Davies (Cadeirydd)

Cyng. A. Evans

Cyng. H.M. Evans

Cyng. Sh. Edwards

Cyng. J. George

Cyng. E. Lewis

Cyng. L.L. Owen

Cyng. C. Lloyd-Morgan

Cyng. M. Davies

Ymddiheuriadau

Cyng. P. Bonner, Cyng. P. Davies

Materion Personol

Dymunwyd longyfarchiadau i Megan Lewis, Sarnau Fawr ar ennill y Goron a'r Gadair yn Eisteddfod Ffermwyr Ifainc Ceredigion ym mis Medi ond hefyd ar ei llwyddiant enfawr o ennill y dwbwl, y Goron a'r Gadair yn Eisteddfod Ffermwyr Ifainc Cymru dros y penwythnos.

Cofnodion y Cyfarfodydd Diwethaf

Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod cyffredinol diwethaf, 15fed Hydref, 2018 fel cofnod cywir.

Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. C. Lloyd Morgan ac eiliwyd gan Cyng. A. Evans ond am gywiro enw Bryngubfa

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Asesiad Risg ac Asedau

Dim materion yn codi.

Materion angen sylw'r Cyngor Sir

Dŵr ger y Gors ar y ffordd C1052

Y sefyllfa'n parhau, gan gadw'r eitem ar yr agenda hyd fydd y Cyngor Sir yn gweithred ond bod yr Aelod Lleol yn cadw mewn cysylltiad gyda'r Cyngor Sir.

Goleuadau Stryd arfaethedig yn Llanafan

Derbyniwyd gadarnhad wrth y Cyfreithiwr bod y darn tir wedi trosglwyddo i'r Cyngor Bro ac y medrir parhau gyda'r trefniadau i leoli golau stryd yn Llanafan. Cytunwyd i ddanfod lythyr o werthfawrogiad i Mr. J. Roe, perchennog y tir am ei garedigrwydd i drosglwyddo i'r Cyngor Bro.

Draeniau angen sylw o fewn yr ardal.

Mae yna restr hir o ddraeniau angen sylw o fewn yr ardal gyda'r Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir at y materion ynghyd ag annog y Cyngor Sir i lenwi tyllau yn ffyrdd yr ardal.

Adroddwyd bod y Cyngor Sir wedi bod yn gwneud gwaith ar y ffosydd a'r draenau wrth Pwllglas a Llwynbrain, Llanfihangel-y-Creuddyn.

Hefyd cwblhawyd y gwaith oedd angen sylw ar y ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant.

Roedd gwaith hefyd yn cael ei wneud o lanhau ochr y ffordd a'r draenau o Lanfihangel-y-Creuddyn i Cnwch Coch.

Mae'r drain ar benlon Sarnau a'r ffos ar y darn yna o ffordd yn parhau i fod yn broblem. Y Cerc i barhau i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

Llinellau Ffyrdd

Adroddodd y Cerc ei bod wedi cael neges gan swyddog o'r Cyngor Sir yn ymholi pa linellau penodol y cyfeirir ato. Cytunwyd i ymateb bod angen ail-baentio pob un gyffordd o amgylch Llanfihangel-y-Creuddyn ac hefyd o amgylch Lanafan, Cnwch Coch a'r gyffordd ger Llwynbrain.

Materion angen sylw gan y Cyngor Sir o ran y ffyrdd.

Trafodwyd nifer o faterion sydd angen sylw gan y Cyngor Sir gyda'r Clerc i gysylltu ymhellach i ddilyn lan. Y Clerc i gadw rhestr hanesyddol gan gyfeirio at y materion ym mhob cyfarfod ond gan gadw eitemau newydd ar yr agenda.

Dwr yn cronni ar draws y ffordd wrth anelu am Frynafan o Lanafan gan fod y ffosydd wedi gorlenwi.

Y ffordd o Lanafan i Troedrihwfelen heibio'r Capel mae porfa'n tyfu ar ganol y ffordd sy'n mynd i niweidio'r ffordd a hefyd tuag at Pencwmillydan, Brynafan.

Rhiw Brynafan: Dŵr glaw yn llifo allan o'r Goedwig ym Mhant yr Hirion ac yn cronni ar y ffordd. Gofynnir i'r Cyngor Sir ddod i agor ffos yno er mwyn i'r dwr lifo i ffwrdd.

Llwybr Cyhoeddus Awel y Bryn

Yn dilyn neges wrth Swyddog o'r Cyngor Sir yn cydnabod bod angen gwaith cynnal a chadw ar y llwybr a'r Bontpren nid oes dim gweithredu pellach.

Y Clerc i ddilyn lan gyda'r Swyddog.

Mae'r ffordd heibio Capel Cynon i ben y rhiw am Lanfihangel-y-Creuddyn angen sylw gyda thyllau mawr ar hyd-ddi gyda'r arwynebedd wedi codi mewn manau, yn enwedig heibio i Bryngubfa.

Mae'r goleuadau fflachio tu allan i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn yn dod arno ar amserau gwahanol, angen tynnu sylw'r Cyngor Sir at hyn.

Mae angen adnewyddu arwyddion adlewyrchiad 30 m.y.a. banc Frondeg i Lanafan a hefyd ar y ffordd o Minffordd i Frynafan.

Dim ymateb am ymholiad a fyddai angen cais cynllunio ar leoli Caban Bugail.

Adnewyddu Ffens

Mae ffens ar y B4340 wrth ymyl Pont Hopkins ar y llaw dde o'r fynedfa o Lanafan yn parahu heb ei hadnewyddu. Y Clerc i gysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir.

Coed angen sylw o fewn yr ardal

Dim gweithred pellach, a chytunwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda'r swyddog o'r Cyngor Sir a fu mewn cysylltiad yn holi am fanylion pellach am y goeden dan sylw ym mhentref Llanafan.

Y Coed yng Nghwyrhydyfelin, ar y llaw dde wrth deithio o Lanafan yn tuag at y B4340 yn ymestyn allan ar draws y ffordd yn parhau'r i dyfu allan ar draws y ffordd.

Derbyniwyd ymateb wrth y Brifysgol yn nodi eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa a bod y Brifysgol yn y broses o baratoi tendr ar gyfer torri'r coed yma yn ôl ynghyd a choed eraill o fewn stad y Brifysgol yn Nhrawsgoed.

Trafodwyd yn y cyfarfod bod y problemau gyda'r coed wedi gwaethygu'n ddiweddar ble mae cerbydau uchel yn teithio ar hyd y ffordd yn ddyddiol ac yn cyffwrdd y coed gan ddymchwel canghenau mawr a brigau ar hyd y ffordd sy'n botensial i achosi damwain.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu ymhellach gydag Adran Ystadau Prifysgol Aberystwyth fel perchnogion tir ac adran y ffyrdd Cyngor Sir Ceredigion i annog i'r coed gael eu tocio nol fel mater o frys o ran lechyd a Diogelwch.

Torri Gwrychoedd o fewn yr ardal

Ni dderbyniwyd ymateb pellach am y sefyllfa.

Ail-wynebu ffyrdd

Adroddodd yr Aelod Lleol ei fod ar ddeallt bydd gwaith o ail-wynebu'r ffordd tu ôl i Dafarn y Gors yn cael eu gwneud yn fuan ond hyd yn hyn dim wedi ei wneud. Cytunwyd i gadw llygad a thrafod yn y cyfarfod nesaf.

Materion Cyllidol**Anfoneb ADVE am waith o drosglwyddo darn tir i berchnogaeth y Cyngor Bro**

Derbyniwyd anfoneb wrth gyfreithiwr ADVE am waith o drosglwyddo'r darn tir o ran lleoliad y Golau Stryd Llanafan £780.00 (£650 a £130 TAW). Cytunwyd i dalu'r anfoneb. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards.

Derbyniwyd cais wrth Drysorydd y Ddolen yn gofyn yn garedig am gyfraniad wrth y Cyngor Bro tuag at Bapur Bro'r Ddolen. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ddanfôn rhodd o £150 tuag at y Ddolen. Cynhigiwyd y taliad gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. H. Evans.

Cytunwyd i dalu anfoneb am y Dorch Pabi ar gyfer Dydd Sul y Cofio o £17.00 gan ychwanegu rhodd o £8.00 i'r Lleng Brydeinig i wneud y swm i £25.00

Cynigiwyd taliad o £25.00 gan y Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan y Cyng. J. George.

Praesept 2018/19

Derbyniwyd y trydydd taliad wrth Gyngor Sir Ceredigion am braesept 2018/19 am y swm o £1,500.

Cyfrifon Cyngor Bro Trawsgoed 2017/18

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf ble nododd y Clerc nad oedd yn cytuno gyda'r farn yr Archwiliwr Allanol am y dyraniad o ran costau staff gan nad oedd yn hawlio ad-daliad costau teithio ayb ac mai ym mocs 6 y dylid parhau i gynnwys yr ad-daliadau costau ac nid bocs 4 fel yr awgrymwyd, derbyniwyd lythyr diwygiedig wrth Grant Thornton yn nodi yr ail-edrychwyd ar y mater ac y cytunir gyda dyfarniad y Clerc.

Gohebiaeth

Cyfeiriodd y Clerc ei bod wedi derbyn lythyr wrth HSBC, Banc ble y cedwir cyllid y Cyngor Bro yn gofyn am gysylltiad wrth unrhyw un o'r Cyngorwyr sydd wedi cofrestru i arwyddo ar y cyfrifon er mwyn cadarnhau diogelwch. Adroddwyd bod y Cadeirydd wedi cysylltu gyda'r Banc a bod popeth mewn trefn.

Darlennwyd ohebiaeth wrth Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid Cyngor Sir Ceredigion yn cyfeirio at wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth i drigolion Ceredigion – Porth y Gymuned. Yn yr ohebiaeth roedd yna gynnig i Gysylltydd Cymunedol lleol ddod i gyfarfod o'r Cyngor Bro i esbonio'r hyn a gynnigir. Cytunwyd i'r cynnig a'r Clerc i gysylltu i wneud y trefniadau.

Ceisiadau Cynllunio

A180990 - Dolau Afon , Llanafan , Aberystwyth

Change of use of agricultural land current used under a Caravan and Camping Club licence for 5 caravans/motorhomes and 10 camping pitches to 20 mixed use pitches inclusive of a new toilet and shower block located in a portable building. Also installation of a new foul treatment works and soakaways, adjustments to the existing site access.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd ymateb i ymholiad y Cyngor Sir am sylwadau nad oedd gwrthwynebiad gan Gyngor Bro Trawsgoed i'r cais cynllunio.

Unrhyw Fater Arall

Ymholwyd a oedd manylion wedi derbyn o ran trefniadau codi arian yn lleol tuag at Eisteddfod Genedlaethol Tregaron 2020 gan y deallir bod trefniadau ar y gweill. Nododd y Clerc nad oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth ac y byddid yn gwneud ymholiadau pellach.

O ran trafodaeth yn ymwneud â'r Eisteddfod a'r anrhydedd o gael yr Eisteddfod Genedlaethol yng Ngheredigion cyfeiriwyd at Gystadleuaeth Treialon Cwn Defaid Cenedlaethol a gynhelir yn Aberystwyth ym mis Tachwedd 2020.

Mae angen ail-wneud sticil bren ar y llwybr troed ger Tynffordd, Cnwch Coch. Y Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir at y mater.

Adroddwyd bod yna broblem o ddwr yn rhedeg allan o hen ffynnon y pentre gyferbyn a mynwent Capel Carmel yn rhan uchaf Cnwch Coch. Deallir bod y Bwrdd Dwr wedi ymweld â'r safle ond gan fod tarddiad y dwr o gyflenwad preifat nid cyfrifoldeb y Bwrdd Dwr byddai'r broblem hon. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ofyn iddynt edrych ar y broblem fel mater o frys, cyn y bu i'r tywydd rhewllyd gyrraedd.

Cyfeiriwyd bod trigolion lleol yn Y Gors yn parhau i bryderu am y nifer o geir a adewir yn y manau parcio o fewn y pentref. Fel y nodir eisioes wedi ymholiadau gyda'r Cyngor Sir a'r Heddlu ni ellir gweithredu gan fod y cerbydau wedi parcio o fewn y gyfraith.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf y Cyngor Bro ar Nos Lun 7fed Ionawr, 2019 am 7.30 y.h. yn Neuadd Lisburne, Llanafan.